CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion (DRAFFT) Cyfarfod Arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN**
a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo Zoom nos Lun 25 Ebrill 2022 am 7:00pm.

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Maer), Menna Jones, Stephen Beach, Christine Ellis, Ken Hawkins, Gavin Harris, Ethan Jones, Rachel Lewington, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Ifan Wyn a Mike van der Eijk
Cynghorydd Sir, Emrys Wynne.

YN BRESENNOL: Siân Clark – Clerc Tref Rhuthun
Kate Harcus – Dirprwy Glerc Rhuthin
Sandra Williams - Cyfieithydd

CROESO
Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod a chan ei fod yn gyfarfod olaf y Cyngor Tref am y flwyddyn ddinesig a'r tymor, diolchwyd yn ddiffuant i'r holl Gynghorwyr Tref am eu gwaith. Mynegwyd dymuniadau gorau i'r Aelodau hynny a oedd wedi penderfynu peidio ail-sefyll.

234. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Jim Bryan a Jabez Redfern Oakes a hefyd y Cynghorwyr Sir, Bobby Feeley a Huw Hilditch-Roberts.

235. DATGAN BUDDIANNAU
Datganodd y Cynghorydd Heather Williams fuddiant yn eitem 16(1) 'Ceisiadau am Gymorth Ariannol' *(cofnod 249)* fel enwebai'r Cyngor Tref ar Bwyllgor Sioe Rhuthun.

236. GŴYL RHUTHUN – PROSIECT CYNALIADWYEDD
Ar ran Pwyllgor Gŵyl Rhuthun, rhoddodd Robert Price (Ysgrifennydd) y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau Gŵyl Rhuthun a'r cynnydd o ran gweithredu'r prosiect cynaliadwyedd. Roedd y pwyntiau allweddol y tynnwyd sylw atynt yn cynnwys y canlynol:

- Byddai Gŵyl Rhuthun yn cael ei chynnal rhwng 25 Mehefin a 3 Gorffennaf 2022 gyda'r digwyddiad Pendref i'w gynnal ddydd Sadwrn 2 Gorffennaf; cadarnhawyd y bydd perfformwyr proffil uchel ynghyd ag ysgolion lleol yn cymryd rhan.
- Nid oedd canslo Gŵyl Rhuthun 2020 wedi cael unrhyw effaith ariannol.
- Cyflwynwyd trwydded barhaol gan arbed amser ac arian ar y broses ymgeisio flynyddol.
- Gwnaed ceisiadau llwyddiannus i'r Gronfa Seilwaith am waith trydanol yng Nghloc y Dref a'r Hen Lys ac i Gronfa Clocaenog i brynu offer ac i wneud gwelliannau o ran marchnata'r Ŵyl.
- Byddai nwyddau'r Ŵyl ar gael o 2022 ymlaen, a fyddai o gymorth o ran incwm a hyrwyddo'r digwyddiad.
- Roedd rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau wedi'i chynllunio ar gyfer 2022 gan gynnwys taith feics a ffrydio byw i gartrefi gofal. Byddai cynrychiolaeth o Ŵyl Rhuthun yn Eisteddfod yr Urdd hefyd a hynny ym mhabell y Fenter Iaith.
- Roedd y camau eraill yn cynnwys ystyried i Ŵyl Rhuthun ddod yn gwmni cyfyngedig

trwy warant; denu mwy o wirfoddolwyr; asesu effaith y digwyddiad ar yr economi leol; codi proffil y digwyddiad ar wefannau fel Croeso Cymru; a chanolbwyntio ar ddatblygu'r Ŵyl yn 2023 i gynnwys comedi a bwyd, yn ogystal â dod yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.

Croesawodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd a mynegwyd pleser y byddai Gŵyl Rhuthun yn cael ei chynnal yn 2022 a dymynwyd wythnos dda i'r Ŵyl. Cydnabuwyd gwaith caled holl aelodau Pwyllgor Gŵyl Rhuthun.

237. ADRODDIAD Y MAER

Nodwyd yr adroddiad fel y'i dosbarthwyd gyda'r agenda, a oedd yn amlinellu gweithgareddau a didgwyddiadau'r Maer ers cyfarfod blaenorol y Cyngor Tref ym mis Mawrth 2022. Yn ogystal, dywedodd y Maer ei bod wedi gwirfoddoli yn yr Hen Lys y dydd Iau blaenorol ac wedi croesawu nifer sylweddol o ymwelwyr.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiad y Maer.*

238. ADRRODDIADAU'R AELODAU

Ystyriodd yr Aelodau Adroddiadau'r Aelodau fel y'u dosbarthwyd gyda'r agenda.

PENDERFYNWYD: *nodi cynnwys Adroddiadau'r Aelodau.*

239. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN

O ystyried y cyfnod cyn yr etholiad yn arwain at etholiadau'r Cyngor Sir ar 5 Mai, ni roddwyd adroddiad ffurfiol.

PENDERFYNWYD: *nodi na roddwyd adroddiad ffurfiol oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad.*

240. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2022 fel cofnod cywir.*

241. MATERION YN CODI

Dim.

242. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2022.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2022.*

243. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU

Trafododd yr Aelodau gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2022.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2022.*

244. DYDDIAU PARCIO AM DDIM 2022

Trafododd Aelodau'r Cyngor Tref argymhellion y Pwyllgor Amwynderau y dylai'r pum diwrnod parcio am ddim ym meysydd parcio Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2022 fod ar y dyddiadau canlynol:

(i) Dydd Sadwrn 2 Gorffennaf 2022 (Gŵyl Rhuthun)
(ii) Dydd Sadwrn 10 Medi 2022 (Drysau Agored)
(iii) Dyddiau Sadwrn 3, 10 a 17 Rhagfyr 2022

PENDERFYNWYD*: mai'r 5 diwrnod parcio am ddim ym meysydd parcio Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer 2022 fydd: Dydd Sadwrn 2 Gorffennaf 2022 (Gŵyl Rhuthun), Dyddiau Sadwrn 10 Medi*

2022 (Drysau Agored) a dyddiau Sadwrn 3, 10 a 17 Rhagfyr 2022.

245. COFNODION PWYLLGOR RHEOLI'R HEN LYS

***PENDERFYNWYD**: nodi y byddai cofnodion Pwyllgor Rheoli'r Hen Lys ar gyfer 5 Ebrill 2022 yn cael eu hystyried yn y cyfarfod nesaf.*

246. DINESYDD DA / PERSON IFANC / GRŴP CYMUNEDOL Y FLWYDDYN 2020 A 2021

Dywedodd yr Aelodau fod y seremonïau i gydnabod derbynwyr Gwobrau Dinesydd Da, Person Ifanc a Grŵp Cymunedol 2020 wedi'u cynnal yn yr Hen Lys. Roedd y broses enwebu ar gyfer gwobrau 2021 wedi'i hymestyn i ddydd Gwener 29 Ebrill 2022. Gofynnwyd am gytundeb, ac fe'i rhoddwyd gan y Cyngor Tref, y bydd unrhyw benderfyniad gan y Gweithgor Dinesydd Da (a oedd i fod i gyfarfod ar 3 Mai 2022) i ddyfarnu'r gwobrau, neu fel arall, yn derfynol, gyda hysbysiad yn cael ei ddarparu i'r Cynghorwyr Tref er gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD**: y byddai dyfarniad y gwobrau, neu fel arall, gan y Gweithgor Dinesydd Da, yn derfynol, gyda hysbysiad yn cael ei ddarparu i'r Cynghorwyr Tref er gwybodaeth.*

247. JIWBILI PLATINWM Y FRENHINES 2022

Trafododd y Cynghorwyr Tref nodi Jiwbili Platinwm Ei Mawrhydi y Frenhines ym mis Mehefin 2022. Dywedwyd fod trigolion Cae Seren yn cynllunio parti stryd. Pleidleisiwyd ar gynnig gan y Cynghorydd Ethan Jones, ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Ifan Wyn, nad yw Cyngor Tref Rhuthun yn defnyddio cronfeydd cyhoeddus i gefnogi gwariant ar y digwyddiadau'n ymwneud â'r Jiwbili Platinwm; ni chafodd y cynnig ei basio. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol i awgrym i brynu coed rhosod ar gyfer cartrefi gofal y dref a chytunwyd y dylai'r Pwyllgor Amwynderau roi ystyriaeth fanwl bellach i'r mater ar 3 Mai 2022 a phenderfynu sut y dylid cydnabod Jiwbili Platinwm Ei Mawrhydi y Frenhines.

***PENDERFYNWYD**: y dylai'r Pwyllgor Amwynderau roi ystyriaeth fanwl bellach yn ei gyfarfod ar 3 Mai 2022 i sut y byddai Jiwbili Platinwm Ei Mawrhydi y Frenhines yn cael ei gydnabod, a phenderfynu ar hynny.*

248. YR URDD – NAWDD

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Tref ym mis Mawrth 2022 i ohirio penderfyniad ar sgrîn 50" yn y babell Celf a Chrefft i ddangos cyflwyniad yn hyrwyddo Rhuthun am nawdd o £500, dywedodd Clerc y Dref ei bod wedi cysylltu â'r Tîm Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych. Bwriedir diweddaru cyflwyniad am Rhuthun, a gynhyrchwyd gan y Cyngor Sir, cyn Eisteddfod yr Urdd, ar yr amod bod y cwmni cynhyrchu ar gael. Byddai'n cynnwys yr Hen Lys a Neuadd y Farchnad, gan fod y ddau leoliad wedi cael eu hagor ers cwblhau'r cynhyrchiad gwreiddiol. Rhoddodd Cyngor Sir Ddinbych ganiatâd i Gyngor Tref Rhuthun ddefnyddio'r cyflwyniad, felly dywedodd y Clerc y byddai cynnwys y cynhyrchiad yn cael ei ddarparu am bris isel iawn i'r Cyngor Tref, neu am ddim cost o gwbl. Cytunodd yr Aelodau i'r nawdd o £500 am sgrin 50" yn y babell Celf a Chrefft.

***PENDERFYNWYD**: gwneud trefniant gyda'r Urdd i noddi sgrîn 50" yn y babell Celf a Chrefft i ddangos cynhyrchiad yn hyrwyddo Rhuthun.*

249. CYMORTH ARIANNOL

Trafododd yr Aelodau geisiadau am gymorth ariannol gan y sefydliadau canlynol, y dosbarthwyd manylion amdanynt yn flaenorol:

1. Cymdeithas Sioe Rhuthun - £500.00
2. Gŵyl Rhuthun - £1,000.00
3. Clwb Criced Rhuthun - £850.00

***PENDERFYNWYD**: cytuno ar y ceisiadau canlynol am gymorth ariannol:*

(i) Cymdeithas Sioe Rhuthun - £500.00
(ii) Gŵyl Rhuthun - £1,000.00
(iii) Clwb Criced Rhuthun - £850.00

250. PAN-005141-V002 NEWBRIDGE ENERGY LIMITED

Trafododd yr Aelodau ymgynghoriad byw yn ym wneud â Blazers Fuel, Lôn Cae Brics, Rhuthun. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion yw 3 Mai 2022. Mynegodd yr Aelodau bryderon trigolion lleol ynghylch y sefyllfa bresennol o ran allyriadau mygdarth, mwg a llwch lli sy'n parhau i amharu ar fywydau'r trigolion lleol. Tynnwyd sylw at bryderon am iechyd a lles disgyblion a staff yn y ddwy ysgol leol gerllaw hefyd. Gwrthwynebodd y Cynghorwyr Tref y cynnig sy'n destun ymgynghoriad a gofynnwyd am i'w wrthwynebiad gael ei fynegi'n gadarn yn yr ymateb i'r ymgynghoriad. Addawodd y Cynghorydd Sir, Emrys Wynne anfon neges e-bost berthnasol at y Clerc ynglŷn â'r mater.

***PENDERFYNWYD**: gwrthwynebu'r cynnig sy'n detun ymgynghoriad a bod y gwrthwynebiad yn cael ei fynegi'n gadarn yn yr ymateb i'r ymgynghoriad.*

251. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2022-23

Nododd y Cynghorwyr Tref gyhoeddiad Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2022-23 a gofynnwyd i'r Grŵp Craffu ar Ddogfennau drafod penderfyniadau'r Panel o ran Taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

***PENDERFYNWYD**: y dylai'r Grŵp Craffu ar Ddogfennau drafod penderfyniadau'r Panel Annibynnol o ran Taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref, ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.*

252. FFI DIOGELU DATA

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cais i adnewyddu cofrestriad y Cyngor Tref gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a chymeradwyo taliad y ffi o £40.

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo taliad y ffi cofrestru o £40 i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.*

253. CYFRIFON BLYNYDDOL DRAFFT 2021-22

Nododd yr Aelodau'r cyfrifon blynyddol drafft ar gyfer 2021-22 fel y'u dosbarthwyd.

***PENDERFYNWYD:** nodi'r cyfrifon blynyddol drafft ar gyfer 2021-22.*

254. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyniodd yr Aelodau'r datganiad ariannol am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 fel y'i dosbarthwyd.

***PENDERFYNWYD:** derbyn y datganiad ariannol am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.*

255. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo taliad yr eitemau canlynol:*

OB	Hill & Roberts	Gwasanaethau Cyfrifo a'r Gyflogres – Ebrill 2022	*	£240.00
OB	Oakwood Property	Gosod arwydd yr Hen Lys (rhan o gyflwyniad Grant Covid-19 Llywodraeth	*	£120.00

		Cymru)		
OB	BT	Darpariaeth ffôn, band eang, rhyngrwyd – Ebrill 2022	*	£98.23
OB	Canda Copying Ltd	Rhentu Copïwr 01/04/22 - 30/06/22	*	£41.90
OB	Canda Copying Ltd	Costau copïo rhwng 29/12/21 a 31/03/22	*	£59.11
OB	CBC Llanfwrog	Gwasanaethau torri glaswellt Ebrill 2022		£425.34
OB	KMT Electrical	Gosod goleuadau'r goeden Nadolig a'u tynnu i lawr	*	£1,158.00
OB	Viking	Deunydd a chyflenwadau swyddfa	*	£109.56
OB	Fineline	Deunydd Swyddfa	*	£10.87
OB	The Don Photography	Lluniau o'r digwyddiad Gwobrwyo a gynhaliwyd yn yr Hen Lys ar 23 Ebrill 2022		£100.00
OB	Sandra Williams	Ad-daliad: Adnewyddu gwefannau: www.visitruthin.wales a www.visitrhuthun.cymru	*	£107.92
OB	Sian Clark	Ad-daliad: Costau Tanysgrifio Misol Microsoft Ebrill 2022	*	£18.96
	O gyfrif yr Hen Lys			
OB	Cyngor Sir Ddinbych	Ardrethi Annomestig (y 1af a'r 2il o 10 taliad) am y cyfod hyd at 05/04/22 a hyd at 05/05/22	*	£527.00 £524.00
OB	Viking	Cyflenwadau ar gyfer Arddangosfa a Gwybodaeth	*	£36.31
	Kate Harcus	Ad-daliad: Glanhawr di-wifr		£34.99

256. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd nesaf y Cyngor Tref – Cyfarfod Blynyddol ar 16 Mai, a'r Cyfarfod Arferol ar 23 Mai 2022, y ddau i'w cynnal am 7.00pm*

257. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: *gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth a eithrir yn cael ei datgelu, fel y diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

258. STAFFIO CYNGOR TREF RHUTHUN – CYFLOG A HYFFORDDIANT

Cymeradwyodd yr Aelodau argymhellion y Pwyllgor Adnoddau Dynol o ran (i) cynyddu cyflog 2022/23 (symudiad fesul un pwynt cynyddrannol) Clerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys ; (ii) ceisiadau am hyfforddiant i Glerc y Dref ymgymryd â chwrs Tystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Leol ac i'r Dirprwy Glerc ymgymryd â chwrs Cyflwyniad i Weinyddu Cynghorau Lleol; a (iii) nodwyd y taliadau a wnaed yn 2021/22 ar gyfer cyflogau gan gynnwys treth incwm, Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn.

PENDERFYNWYD: *(i) bod Clerc y Dref a Rheolwr yr Hen Lys yn cael un cynnydd cynyddrannol mewn cyflog ar gyfer 2022/23; (ii) cytuno i'r ceisiadau am hyfforddiant i Glerc y Dref ymgymryd â chwrs Tystysgrif mewn Gweinyddu Cynghorau Lleol ac i'r Dirprwy Glerc ymgymryd â chwrs Cyflwyniad i Weinyddu Cynghorau Lleol; a (iii) nodi'r taliadau a wnaed yn 2021/22 ar gyfer cyflogau gan gynnwys treth incwm, Yswiriant Gwladol a chyfraniadau pensiwn.*